# COFNODION O GYFARFOD Y CYNGOR SIR A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR AR DDYDD IAU, 16 MAI 2019

YN BRESENNOL

Cynghorwyr Sir MC Alexander, M Barnes, G Breeze, J Charlton, L V Corfield, K W Curry, A W Davies, B Davies, D E Davies, P Davies, S C Davies, M J Dorrance, E Durrant, D O Evans, J Evans, L George, J Gibson-Watt, M R Harris, S M Hayes, H Hulme, A Jenner, E A Jones, D R Jones, E Jones, G Jones, J R Jones, E M Jones, M J Jones, D Jones-Poston, F H Jump, K Laurie-Parry, H Lewis, K Lewis, P E Lewis, S Lewis, MC Mackenzie, I McIntosh, S McNicholas, C Mills, G Morgan, JG Morris, N Morrison, R Powell, WD Powell, D R Price, GD Price, P C Pritchard, G Pugh, J Pugh, G W Ratcliffe, L Roberts, P Roberts, K M Roberts-Jones, E Roderick, D Rowlands, D Selby, K S Silk, D A Thomas, R G Thomas, T J Van-Rees, E Vaughan, M Weale, A Williams, G I S Williams, D H Williams, J Williams, J M Williams, R Williams a S L Williams

Diolchodd y Cadeirydd a oedd yn ymadael, y Cynghorydd Sir David Meredith, i'r aelodau a'r swyddogion am eu cefnogaeth yn ystod ei flwyddyn yn y swydd. Diolch yn arbennig i'w ysgrifenyddes, Elizabeth Protheroe, a fyddai'n ymddeol o'i swydd yn fuan. Ar ran y Cyngor diolchodd yr Arweinydd i'r Cynghorydd Meredith am ei waith fel Cadeirydd i'r Cyngor ac am ei gefnogaeth i elusennau lleol.

| 1. | ETHOL CADEIRYDD |
|---|---|

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Sir Beverley Baynham yn Gadeirydd am y flwyddyn nesaf.**

| 2. | ETHOL IS-GADEIRYDD |
|---|---|

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Sir Gwynfor Thomas yn Is-gadeirydd am y flwyddyn nesaf.**

| 3. | ETHOL IS-GADEIRYDD CYNORTHWYOL |
|---|---|

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe yn Is-gadeirydd Cynorthwyol am y flwyddyn nesaf.**

Gohiriwyd y Cyngor am 10.45 a.m. i dynnu lluniau ac ailgynullodd am 11.00 a.m.

Tynnodd y Deilydd Portffolio dros Bobl Ifanc a Diwylliant sylw'r Aelodau at y Pythefnos Faethu ac at ymdrechion y cyngor i recriwtio rhagor o ofalwyr maeth. Anogodd ei chydweithwyr i helpu i ennyn cyhoeddusrwydd i hyn ac i daro heibio'r stondin yn y dderbynfa.

| 4. | YMDDIHEURIADAU |
|---|---|

Cafwyd Ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Sir J Wilkinson.

| 5. | DATGAN BUDDIANNAU |
|---|---|

Fe wnaeth pob Aelod ddatgan buddiant personol ond heb fod yn rhagfarnus o safbwynt Cyflogau, Lwfansau a Threuliau Aelodau yn unol â pharagraff 12 (2)(b)(iv) o'r Cod Ymddygiad.

Fe wnaeth y Cynghorydd Sir R Williams ddatgan buddiant personol ond heb fod yn rhagfarnus yn y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy fel aelod a benodwyd gan yr awdurdod i'r Fforwm Mynediad Lleol.

| 6. | DYRANIADAU, ETHOLIADAU A PHENODIADAU Y MAE GOFYN EU GWNEUD YNG NGHYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR |
|---|---|

Ystyriodd y Cyngor adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ar y dyraniadau a'r penodiadau sydd angen eu gwneud i bwyllgorau a chyrff allanol.

**Penodiadau Gwleidyddol-gytbwys i Bwyllgorau'r Cyngor**

Cynigiodd y Cynghorydd Sir James Gibson-Watt ac eiliodd y Cynghorydd Sir Michael Jones ac o 62 pleidlais i 0

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y penderfyniad: |
|---|---|
| **Cymeradwyo'r dyraniad seddi ar Bwyllgorau'r Cyngor i'r gwahanol Grwpiau Gwleidyddol yn unol ag Atodiad 5.** | **Er mwyn cydymffurfio â'r gofynion statudol (gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â'r angen am gydbwysedd gwleidyddol) ac â Chyfansoddiad y Cyngor o safbwynt dyrannu a phenodi seddi a Chadeiryddion pwyllgorau.** |

**Penodi Cynghorwyr i Bwyllgorau**

Dywedwyd wrth y Cyngor fod Grŵp y Ceidwadwyr wedi rhoi'r lle ar y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a ddyrannwyd i'r Cynghorydd Sir Sarah Lewis i'r Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan. Yn amodol ar y newid hwn, cynigiodd y Cynghorydd Sir David Meredith ac eiliodd y Cynghorydd Sir Myfanwy Alexander ac o 65 pleidlais i 0

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y penderfyniad: |
|---|---|
| **Gwneud penodiadau i Bwyllgorau yn unol â dymuniadau'r gwahanol Grwpiau Gwleidyddol fel y nodir yn Atodiad 6 yn amodol ar benodi'r** | **Er mwyn cydymffurfio â'r gofynion statudol (gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â'r angen am gydbwysedd gwleidyddol) ac â Chyfansoddiad y** |

| | |
|---|---|
| **Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, gan Grŵp y Ceidwadwyr, yn lle'r Cynghorydd Sir Sarah Lewis.** | **Cyngor o safbwynt dyrannu a phenodi seddi a Chadeiryddion pwyllgorau.** |

**Penodi i swyddi Cadeiryddion Pwyllgorau Craffu**

Cynigiodd y Cynghorydd Sir David Meredith ac eiliodd y Cynghorydd Sir Karen Laurie-Parry ac o 65 pleidlais i 0

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y penderfyniad: |
|---|---|
| **Dyrannu'r 3 swydd Cadeirydd i'r Pwyllgorau Craffu i'r Grwpiau Gwleidyddol fel y nodir ym mharagraff 6.5, a nodi penodiadau'r grwpiau gwleidyddol o safbwynt Cadeiryddion fel a ganlyn:<br>Pwyllgor Craffu yr Economi, Preswylwyr, Cymunedau a Llywodraethu: Grŵp Llafur – y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance<br>Pwyllgor Craffu Iechyd a Gofal: Grŵp y Ceidwadwyr – y Cynghorydd Sir Gwilym Williams<br>Pwyllgor Craffu Dysgu a Sgiliau: Democratiaid Rhyddfrydol/ Grŵp Gwyrdd y Cynghorydd Sir Pete Roberts.** | **Er mwyn cydymffurfio â'r gofynion statudol (gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â'r angen am gydbwysedd gwleidyddol) ac â Chyfansoddiad y Cyngor o safbwynt dyrannu a phenodi seddi a Chadeiryddion pwyllgorau.** |

**Penodi Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**

Enwebwyd y Cynghorwyr Sir Elwyn Vaughan a Sarah Williams. Yn dilyn pleidlais

**PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan yn Gadeirydd ar y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd am y flwyddyn nesaf.**

Cododd y Cynghorydd Sir Gary Price fater o drefn a dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ei bod yn briodol i'r grŵp gweithredol llywodraethol enwebu Cadeirydd ar yr amod nad oedd yr aelod yn perthyn i blaid yn y grŵp gweithredol.

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (BBNPA)**

Cynigiodd y Cynghorydd Sir David Jones ac eiliodd y Cynghorydd Sir Linda Corfield ac o 56 pleidlais i 3 gyda 4 yn ymatal

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y penderfyniad: |
|---|---|
| **Gwneud penodiadau i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn** | **Er mwyn gwneud penodiadau yn unol â'r statud a'r Cyfansoddiad.** |

| | |
|---|---|
| **unol ag enwebiadau'r grwpiau gwleidyddol fel y gwelir isod:**<br><br>**<u>Grŵp Annibynnol</u>**<br>**Cynghorydd Sir Michael J. Jones**<br>**Cynghorydd Sir Karen Laurie-Parry (sedd Ceidwadwyr Cymreig)**<br>**Cynghorydd Sir Phil Pritchard**<br>**Cynghorydd Sir Edwin Roderick**<br><br>**<u>Ceidwadwyr Cymreig</u>**<br>**Cynghorydd Sir Iain McIntosh**<br><br>**<u>Democratiaid Rhyddfrydol Cymru</u>**<br>**Cynghorydd Sir Emily Durrant**<br>**Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe**<br><br>**<u>Llafur Cymreig</u>**<br>**Cynghorydd Sir Susan McNicholas** | |

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)**

Cynigiodd y Cynghorydd Sir James Gibson-Watt ac eiliwyd yn briodol ac o 38 pleidlais i 22

**PENDERFYNWYD cymryd enwebiadau o'r llawr.**

Cafodd y Cynghorwyr Sir Mark Barnes, Jackie Charlton, Aled Davies, Matthew Dorrance, James Evans, Rosemarie Harris, Stephen Hayes, James Gibson-Watt, Karen Laurie-Parry, John Morris, Elwyn Vaughan a Roger Williams eu henwebu ar gyfer Cyngor CLlLC. Tynnodd y Cynghorwyr Mark Barnes, James Gibson-Watt, John Morris ac Elwyn Vaughan eu henwau'n ôl. Yn dilyn pleidlais

**PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorwyr Sir Aled Davies, Rosemarie Harris a Matthew Dorrance i Gyngor CLlLC.**

**Bwrdd Gweithredol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

**PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Sir Rosemarie Harris i Fwrdd Gweithredol CLlLC.**

| 7. | CYFLOGAU, LWFANSAU A THREULIAU'R AELODAU |
|---|---|

Ystyriodd y Cyngor adroddiad y Pennaeth Cyllid a gyflwynai argymhellion Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW) o safbwynt y symiau i'w talu fel Cyflog Sylfaenol, Cyflog Uwch a Chyflogau Dinesig. Gofynnwyd i'r Cyngor roi ystyriaeth hefyd i argymhellion y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a oedd wedi cynnal adolygiad o nifer y cyflogau uwch ac a oedd wedi argymell na ddylid talu cyflogau uwch i Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd nac i Gadeirydd y Pwyllgor Pensiynau a Buddsoddiadau. Teimlai Cadeirydd y Pwyllgor

Pensiynau a Buddsoddiadau nad oedd yr adolygiad wedi rhoi digon o bwysau ar y rôl fel ymddiriedolwr i'r Gronfa Bensiynau a'r hyfforddiant oedd yn ofynnol i gyflawni'r rôl a gofynnodd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd edrych arno eto.

Gadawodd y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe y cyfarfod am 12.18.

Cynigiodd y Cynghorydd Sir Gary Price welliant, wedi'i eilio gan y Cynghorydd Sir Jeremy Pugh, y dylid talu cyflogau uwch i Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ac i Gadeirydd y Pwyllgor Pensiynau a Buddsoddiadau ac y dylid tynnu nifer y seddi yn y Cabinet i lawr i 8. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd fod angen pleidleisio ar ddwy ran y gwelliant ar wahân, gan bleidleisio ar leihau nifer y seddi yn y Cabinet yn gyntaf oherwydd os na derbyniwyd y rhan honno ni allai'r ail ran fwrw ymlaen oherwydd y byddai'n mynd yn groes i'r uchafswm cyflogau uwch a ganiateir yn y Cyngor. Dyfarnodd Cadeirydd y Cyngor ei fod yn derbyn cyngor Pennaeth y Pwyllgor Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd gan ofyn am gynigydd ac eilydd i'r cynnig y dylid tynnu nifer seddi'r Cabinet i lawr i 8. Nid oedd cynigydd felly cynigiodd y Cynghorydd Sir James Gibson-Watt yr argymhellion yn yr adroddiad ac fe'u heiliwyd gan y Cynghorydd Sir David Jones ac o 43 pleidlais i 16 gyda 7 yn ymatal

| **PENDERFYNWYD** | **Rheswm am y penderfyniad:** |
|---|---|
| **Bod yr Aelodau:**<br>**(i) yn cymeradwyo'r argymhelliad ar gyfer dyrannu hyd at 18 o Gyflogau Uwch fel y nodir yn adran 4.11 o'r adroddiad hwn.**<br>**(ii) yn cymeradwyo'r dull o gyhoeddi Lwfansau Gofal fel y nodir yn Adran 8 o'r adroddiad**<br>**(iii) yn cymeradwyo cyhoeddi'r Rhestr o Daliadau Cydnabyddiaeth yr Aelodau ar sail yr adroddiad hwn yn amodol ar gynnwys unrhyw welliannau a gyfyd o'r cyfarfod o'r Cyngor a'r Pwyllgorau yn dilyn Cyfarfod Blynyddol y Cyngor.** | **Er mwyn gwneud penderfyniadau am Gyflogau, Lwfansau a Threuliau'r Aelodau yn unol â'r statud a'r adroddiad blynyddol a rheoliadau'r IRPW.** |

Cynigiodd y Cynghorydd Sir Gary Price welliant na fyddai gan Gynghorwyr hawl i ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Ni chafwyd eilydd a hysbyswyd y Cyngor fod yr IPRW wedi pennu yn 2019 fod gan pob Cynghorydd hawl i ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

| **8.** | **CYNLLUN GWELLA HAWLIAU TRAMWY** |
|---|---|

Cyhoeddodd y Deilydd Portffolio dros Gyllid, Cefn Gwlad a Thrafnidiaeth fod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth wedi cadarnhau grantiau gwerth cyfanswm o £1.718m a fyddai o fudd i 5 o gynlluniau ym Mhowys drwy'r Gronfa Trafnidiaeth Leol a'r Gronfa Rhwydwaith Trafnidiaeth.

Ystyriodd y Cyngor y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy. Mae'r cynllun yn disgrifio sut byddai'r Cyngor yn rheoli ac yn gwella'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus. Cydnabu'r Aelodau bwysigrwydd y rhwydwaith hawliau tramwy er mwyn iechyd a lles gan dalu teyrnged i'r gwirfoddolwyr a oedd yn gweithio i gynnal y rhwydwaith. Cadarnhaodd y swyddogion eu bod yn gweithio'n agos â thirfeddianwyr ac mai'r polisi oedd sicrhau'r mynediad lleiaf cyfyngol er mwyn darparu llwybrau hygyrch. Byddai'r swyddogion yn darparu i'r aelodau fanylion sut i weld data digidol ar y wefan.

Cynigiodd y Cynghorydd Sir Emily Durrant ac eiliodd y Cynghorydd Sir Karl Lewis ac o 63 pleidlais i 1

| **PENDERFYNWYD** | **Rheswm am y penderfyniad:** |
|---|---|
| **Cymeradwyo'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Drafft.** | **Er mwyn i'r Cyngor gyflawni ei ddyletswydd statudol i adolygu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.** |

**Cynghorydd Sir BJ Baynham (Cadeirydd)**